Adnodd 3f.

# Nodiadau'r Athro/Athrawes

**1. Pa gamgymeriadau ddaru Ryan eu gwneud yn y stori?**

**a.** Ni wnaeth gael gwared o'r llun o'i ffôn yn syth ar ôl iddo ei gael.

**b.** Ni wnaeth gau ei gyfrif Facebook. Petai wedi cau'r cyfrif yna ni fyddai Marcus wedi gallu postio'r llun noeth o Lowri.

*(Cyngor i'r disgyblion – os ydynt yn cael unrhyw hun-lun noeth neu os bydd lluniau noeth yn cael eu tecstio i'w ffôn yna dylent gael gwared ohonynt yn syth. Dylent roi cyfrinair ar eu ffôn er mwyn atal rhywun arall rhag gallu ei ddefnyddio. Dylent bob tro logio allan o unrhyw gyfrif rhwydweithio cymdeithasol ar-lein. Dylent ddefnyddio cyfrineiriau cryf i amddiffyn eu ffôn symudol a'u preifatrwydd ar-lein).*

**2. Pwy yn ôl y gyfraith sydd wedi cyflawni'r nifer fwyaf o droseddau?**

- **Lowri** – mae wedi cyflawni 3 trosedd – tynnu, meddu a rhannu delwedd anweddus o blentyn (gan ei bod dan 18). 1. Fe dynnodd yr hun-lun, (delwedd hunangynyrchedig) 2. Mi wnaeth gadw'r llun ar gamera ei ffôn 3. Roedd yn gyfrifol am ei anfon at Azuben.
- **Azuben** – mae wedi cyflawni 2 drosedd – meddu a rhannu delwedd anweddus o blentyn.
- **Marcus** – mae wedi cyflawni 2 drosedd – meddu a rhannu delwedd anweddus o blentyn.

Maent i gyd yn droseddau difrifol iawn oherwydd mae'r gyfraith wedi'u categoreiddio fel Digwyddiadau Difrifol. Mae tynnu, meddu a rhannu delwedd anweddus o blentyn yn drosedd rhyw. Golyga hyn y byddai'n bosib i chi gael eich labelu'n droseddwr rhyw cofrestredig am byth ar y gofrestr o droseddwyr rhyw.

Os ydi'r plentyn yn 13 oed neu'n iau yna mae'n drosedd llawer iawn mwy difrifol a gallech gael eich erlyn.

HEDDLU POLICE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**3. Pam ydych chi'n meddwl ddaru Lowri anfon hun-lun noeth?**

Awgrymiadau:

- Gorfodaeth gan Azuben
- Ofn y byddai'n colli diddordeb ynddi petai'n gwrthod
- Roedd yn ymddiried yn Azuben ac yn credu y byddai'n parchu ei llun
- Roedd yn ddiniwed i'r risgiau y byddai'r llun ohoni yn cael ei ddefnyddio yn ei herbyn
- Mae mewn cariad ag Azuben ac eisiau ei blesio
- Mae dan yr argraff fod pawb sydd mewn perthynas yn gwneud hyn
- Nid yw'n gwybod sut i wrthsefyll y pwysau i gydymffurfio â'r gofynion

Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn gwybod nad yw secstio yn arferiad iachus mewn perthynas rhwng pobl ifanc. Mae'n bwysig herio'r ymddygiad hwn, hybu ymwybyddiaeth o'r risgiau posibl a'r ochr anghyfreithlon o ddewis gwneud hyn mewn perthynas bersonol. Dylai pobl ifanc gael eu hannog i beidio â rhoi mewn i orfodaeth gan berson arall i dynnu ac anfon y math yma o ddelweddau amheus. Mae hyn yn arwydd o berthynas afiach. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i roi pwysau ar rywun arall i wneud unrhyw beth nad ydynt eisiau ei wneud.

**4. Pam ydych chi'n meddwl ddaru Azuben anfon y llun noeth o Lowri at Marcus?**

- Dangos ei hun
- Pwysau gan Marcus
- Trin y ddelwedd fel tlws
- Nid yw'n parchu Lowri ac mae'n difrïo eu perthynas bersonol
- Mae'n meddwl bod pawb arall yn gwneud yr un peth ac nid yw'n ei weld yn broblem
- Mae'n gweld Lowri fel gorchest ac mae'n brolio ei bod efo fo.

Mae'n hanfodol bod unigolion yn ymddiried yn ei gilydd mewn perthynas ac mae Azuben wedi dangos na all Lowri ymddiried ynddo. Ni wnaeth gymryd i ystyriaeth effaith ei weithredoedd ar Lowri ac eraill.

HEDDLU POLICE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**5. Pam ydych chi'n meddwl ddaru Marcus roi'r llun noeth o Lowri ar y rhyngrwyd?**

- Oherwydd ei fod yn genfigennus o Azuben
- Malais
- Fel jôc neu gast
- Roedd yn ffansïo Lowri ei hun
- Ymffrost llwyr
- I wella ei hygrededd ar y stryd o fewn ei gylch o ffrindiau

Ar ôl anfon y llun i'w ffrindiau agos i ddechrau, mi wnaeth Marcus wedyn roi'r ddelwedd yn y parth cyhoeddus lle'r oedd cynulleidfa llawer mwy yn gallu gweld delwedd anweddus o Lowri. Unwaith roedd ar y rhyngrwyd fe gollodd reolaeth o'r ddelwedd am byth. Gall y ddelwedd gael ei hailgynhyrchu drosodd a throsodd a gall hyd yn oed ymddangos mewn casgliadau pedoffiliaid.

**6. Pa resymau eraill y mae pobl ifanc yn eu rhoi dros dynnu, anfon neu bostio lluniau noeth o'u hunain neu eraill?**

- Meddwl ei fod yn 'cŵl'
- Eisiau cael eu derbyn gan eraill
- Eisiau ymddangos yn hŷn
- Boddhad rhywiol
- Poblogrwydd
- Bechgyn yn casglu delweddau o ferched a'u graddio yn ôl pa mor rhywiol ydynt.
- Rheoli eraill
- Am arian
- Maent wedi cael eu paratoi a'u hecsploetio
- Copïo eraill

HEDDLU POLICE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**7. Pa un o ffrindiau Lowri, os o gwbwl, wnaeth y dewis cywir a beth oedd y dewis?**

Mi wnaeth Naomi a Kat ddileu'r llun o'u ffôn symudol yn syth. Mi wnaethant y peth iawn yn ôl y gyfraith oherwydd byddai'r ddelwedd yn cael ei hystyried yn ddelwedd anweddus o blentyn. Petai eu ffônau wedi cael eu hatafaelu gan yr heddlu yn ystod ymchwiliad a bod y ddelwedd ar eu ffônau, yna byddai'r ddwy ohonynt wedi bod ym meddiant delwedd anweddus o blentyn. Mae hyn yn drosedd difrifol.

**8. Os byddai'ch ffrind yn dweud wrthych eu bod ar fin anfon hun-lun noeth, beth fyddech chi'n neud?**

Dylai pobl ifanc gael eu hannog i ymateb i'r wybodaeth hon. Gallant helpu'r ffrind drwy:

- Eu hannog i feddwl am ganlyniadau posib anfon y llun. Gall gael ei weld gan bobl eraill.
- Awgrymu eu bod ond yn anfon lluniau lle maent yn gwisgo dillad. Ni fyddai hyn yn creu embaras nac yn anghyfreithlon.
- Eu helpu i ddod o hyd i oedolion y gallant ymddiried ynddynt i siarad am unrhyw bwysau sydd arnynt
- Mynd ar-lein i edrych ar unrhyw wefannau sy'n cynnig cyngor
- Eu hannog i siarad â'u partner am ffiniau mewn perthnasau a beth sy'n ymddygiad cywir ac anghywir (mae secstio yn anghyfreithlon)
- Eu helpu i adnabod pa fath o berthynas maent ynddo (e.e. a ydynt dan bwysau i wneud pethau nad ydynt eisiau eu gwneud).
- Eu helpu i adnabod beth sydd angen iddynt wneud nesaf er eu lles nhw eu hunain (e.e. sefydlu ffiniau clir ar gyfer y berthynas, gwrthod ceisiadau'r partner neu ddod â'r berthynas i ben os ydi bob dim arall yn methu).

Dylai pobl ifanc fod yn ddigon hyderus i ddweud na wrth bethau nad ydynt eisiau eu gwneud. Dylent gael eu herio i edrych ar ganlyniadau posib gwneud penderfyniadau i anfon hun-luniau noeth a'u hannog i adnabod a datblygu perthnasau personol positif a ffyrdd o wrthsefyll pwysau negyddol gan gyfoed.

HEDDLU POLICE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government